

City & Guilds / NPTC Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Gweithrediadau Cysylltiedig Lefel 2



Yn gwyno

Mae gan lifiau cadwyn amrywiaeth o ddefnyddiau ond gallant achosi damweiniau difrifol heb hyfforddiant addas neu sgiliau gweithredu cyfoes. Bydd y cymhwyster hwn yn cwmpasu cynnal a chadw dyddiol a pharhaus y llif gadwyn, miniogi'r llif a thorri pren sydd eisoes wedi'i gwmpo i lefel y ddaear. Mae traws-dorri yn cynnwys y broses o dynnu aelodau ac yna torri'r goeden yn adrannau y gellir eu rheoli.

Bydd y cwrs hwn yn dysgu ymarfer iechyd a diogelwch rhagorol ac yn dangos eich gallu i ddefnyddio llif gadwyn.

Y cymhwyster hwn yw eich 'porth' i gymwysterau llif gadwyn eraill a gymeradwyir gan y NPTC, gan gynnwys NPTC mewn Cwmpo a Phrosesu Coed Bach.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... gyrfa fel garddwr tirwedd, llawfeddyg coed, ceidwad coetir neu unrhyw nifer o swyddi awyr agored.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... adnewyddu eich sgiliau cynnal a chadw a defnyddio llif gadwyn.

Cynnwys y cwrs

Bydd y cymhwyster hwn yn dangos eich bod wedi cael eich asesu'n annibynnol gan Gyngor y Prawf Medrusrwydd Cenedlaethol o ran deddfwriaeth gyfredol, hanfodion gweithredu llif gadwyn a defnyddio a chynnal llifiau cadwyn yn ddiogel.

Ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus, byddwch yn gallu symud ymlaen i gymhwyster NPTC Cwmpo a Phrosesu Coed Bach, a gynigir hefyd ar Gampws Brynbuga.

Gofynion Mynediad

Nid oes angen profiad, ond rhaid ichi fod yn 19 oed

neu'n hyn.

Mae'n rhaid i chi cwblhau'r cwrs hwn cyn cychwyn ar unrhyw gymhwyster llif gadwyn arall a gymeradwywyd gan NPTC.

Gwybodaeth Ychwanegol

Noder: Bydd yr asesiad ar gyfer y cwrs hwn ar ddiwrnod ychwanegol, hysbysir y diwrnod hwn yn ystod yr hyfforddiant.

Anogir ymgeiswyr i gyflenwi eu dillad amddiffynnol a'u hesgidiau diogelwch eu hunain os ydynt ar gael ac yn cyrraedd y safon, fodd bynnag gall y coleg eu darparu os bydd angen ac os yw'r meintiau'n safonol.

Dylai ymgeiswyr ddod â phecyn bwyd gyda nhw gan y gallai rhywfaint o'r cwrs gymryd lle oddi ar y safle.

Mae'r holl gostau o dan adolygiad ac maent yn amodol ar newid.